



CYNLLUN MARCIO TAG UG

HAF 2024

**UG
IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL
PLANT
UNED 1: HYBU IECHYD A LLESIANT
2570N10-1**

Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn gynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu'r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

TAG IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT

UNED – 1 HYBU IECHYD A LLESIANT

CYNLLUN MARCIO HAF 2024

Canllawiau i arholwyr

Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi marciau am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu'r dull o'i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael marc o sero. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Mae cynlluniau marcio yn aml yn rhestru pwyntiau y gellir eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Nid yw'r rhestr yn un gwbl gyflawn. Mae cynnwys *'Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall'* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir rhoi marciau i ymgeiswyr lle bo'r ateb yn gywir ond wedi'i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Ar gyfer cwestiynau a gaiff eu marcio yn seiliedig ar fandiau, mae'r cynlluniau marcio mewn dwy ran, sef y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodwyd uchod, ni fwriedir i gynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai ymgeiswyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio, rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni ddylid rhoi unrhyw farciau.

Mewn TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, bydd pob cwestiwn yn ymdrin ag un amcan asesu neu fwy: o AA1, AA2 neu AA3. Lle y bo'n briodol, mae'r grid asesu yn isrannu cyfanswm y marciau y gellir eu dyrannu i gwestiwn yn amcanion asesu unigol. Dangosir y rhain mewn bandiau yn y cynllun marcio. Ar gyfer pob amcan asesu, bydd disgrifyddion yn dangos y sgiliau a'r rhinweddau gwahanol ar y lefel briodol.

Asesir ymatebion ymgeiswyr i gwestiynau yn erbyn yr amcanion asesu perthnasol. Lle bo cwestiwn yn ymdrin â mwy nag un amcan asesu, gall ymgeiswyr gyflawni gwahanol fandiau o fewn y cwestiwn hwnnw. Yn yr achosion hyn, dyfernir marc am bob amcan asesu ac wedyn caiff y marciau hynny eu hadio at ei gilydd er mwyn rhoi marc cyffredinol ar gyfer y cwestiwn.

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hynny'n golygu, ar gyfer ymateb pob ymgeisydd, bod marciau'n cael eu cronni am arddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol: Nid ydynt yn cael eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau â'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i'r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Yn ystod y broses safoni (y gynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi rhoi marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Atgoffir arholwyr y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm marciau
1.	<i>Disgrifiwch beth yw ystyr 'hybu iechyd' a sut byddai'n gallu bod o fantais (benefit) i iechyd, llesiant a gwydnwch unigolion.</i>	6			6
	Gall atebion gyfeirio at y canlynol: Disgrifiad o hybu iechyd Diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd: hybu iechyd yw'r broses o alluogi unigolion i gael mwy o reolaeth dros eu hiechyd ac i wella eu hiechyd. - Pwrpas hybu iechyd yw cael dylanwad cadarnhaol ar ymddygiad iechyd unigolion a chymunedau yn ogystal â'r amodau byw a gweithio sy'n dylanwadu ar eu hiechyd. - Mae hybu iechyd yn wyddor cymdeithasol ymddygiadol i hybu iechyd ac atal clefydau drwy newidiadau gwirfoddol i ymddygiad wedi'u llywio gan addysg. Manteision i iechyd, llesiant a gwydnwch unigolion: - helpu gwybodaeth a dealltwriaeth unigolion drwy godi ymwybyddiaeth o gyflyrau iechyd a materion llesiant, er enghraifft o ran ymwybyddiaeth o glefydau cronig a dulliau atal - darparu gwybodaeth gywir a chyfredol am iechyd a llesiant er mwyn llywio ffyrdd iach o fyw - atal anafiadau a thrais, fel hyrwyddiadau sy'n codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig - gwella ansawdd bywyd unigolion drwy ganolbwyntio ar agweddau allweddol ar iechyd, megis maeth, ymarfer corff ac atal gordewdra - lleihau cyfraddau salwch a chlefydau, er enghraifft drwy annog pobl i beidio â defnyddio tybaco a chamddefnyddio sylweddau - lleihau'r risg o farwolaeth gynamserol o ganlyniad i ffyrdd aniach o fyw, anaf neu glefyd - cefnogi iechyd meddwl ac iechyd ymddygiadol drwy drafod y mater, er enghraifft yr ymgyrch 'Diwrnod Amser i Siarad' a drefnir gan MIND yng Nghymru - gwella gwydnwch drwy rymuso unigolion i wneud dewisiadau ynghylch ffyrdd iach o fyw ac i wneud addasiadau cadarnhaol, er mwyn lleihau risgiau a gwella iechyd a llesiant Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall.				

Band	AA1
3	5-6 marc Disgrifiad da iawn sy'n dangos: • dealltwriaeth gadarn o ystyr 'hybu iechyd' • dealltwriaeth hyderus o sut byddai hybu iechyd yn gallu bod o fantais i iechyd, llesiant a gwydnwch unigolion
2	3-4 marc Disgrifiad da sy'n dangos: • dealltwriaeth o ystyr 'hybu iechyd' • dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut byddai hybu iechyd yn gallu bod o fantais i iechyd, llesiant a gwydnwch unigolion
1	1-2 marc Ystyriaeth sylfaenol sy'n dangos: • dealltwriaeth gryno o ystyr 'hybu iechyd' • fawr ddim dealltwriaeth o sut byddai hybu iechyd yn gallu bod o fantais i iechyd, llesiant a gwydnwch unigolion
	0 marc Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb

Cwestiwn		Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm marciau
2.	(a)	<i>Mae Sanjay yn 28 oed. Mae brawd Sanjay a hefyd tad Sanjay yn byw â diabetes math 2.</i> <i>Esboniwrch sut byddai Sanjay yn gallu lleihau ei ffactorau risg ar gyfer datblygu diabetes math 2 drwy ddilyn dull cadarnhaol (positive approach) o ran ei iechyd a'i lesiant.</i>		8		8
		Mae dull cadarnhaol yn golygu bod Sanjay yn cymryd cyfrifoldeb dros ei ffitrwydd corfforol, ei sefydlogrwydd meddyliol a'i iechyd a'i lesiant, gan felly lleihau ei ffactorau risg addasadwy ar gyfer datblygu diabetes Math 2. Gall atebion gyfeirio at y canlynol: Newidiadau i ffyrdd o fyw: Gallai wneud y canlynol: • cadw llygad ar ei bwysau/monitro ei bwysau er mwyn osgoi bod dros bwysau neu'n ordew; oherwydd po fwyaf o feinwe brasterog y bydd ganddo, y mwyaf y bydd ei gelloedd yn dangos ymwrthedd i inswlin • dilyn diet iach - lleihau braster, carbohydradau wedi'u puro a siwgr/bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd er mwyn lleihau faint o galoriau y mae'n eu bwyta • gwneud ymarfer corff bob dydd, gwneud ymarferion rheolaidd er mwyn gwella ei sensitifrwydd i inswlin • peidio ag ysmegu, gan fod pobl sy'n ysmegu yn wynebu risg uwch o ddatblygu diabetes • yfed dŵr fel ei brif ddiod, er mwyn lleihau faint o siwgr y mae'n ei gael o ddioddydd meddal, te/coffi melys, sudd ffrwythau a llaeth sy'n gysylltiedig â risg uwch o ddatblygu diabetes math 2. Mae'r corff yn treulio'r siwgr yn y diodydd hyn yn gyflym, a all achosi i lefelau siwgr yn y gwaed gynyddu'n sydyn a chyfrannu at ymwrthedd i inswlin • cyfyngu ar faint o alcohol sy'n cael ei yfed, gan y gall alcohol effeithio ar lefelau siwgr yn y gwaed. Pan fydd alcohol yn cael ei brosesu gan yr afu, nid yw'n rhyddhau glwcos. Gall lefelau siwgr yn y gwaed ostwng yn gyflym, gan arwain at lefel isel o siwgr yn y gwaed (hypoglycaemia). Cymorth meddygol: • gan fod ganddo ragdueddiad genynnol i ddiabetes, gallai ymweld â'i feddyg teulu/meddygfa: - i gael prawf sgrinio ar gyfer diabetes. Gall meddyg ddefnyddio profion gwaed i fesur lefelau glwcos (siwgr) yn y gwaed er mwyn gwneud diagnosis o ddiabetes a chyn-diabetes - cael atgyfeiriad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol fel dietegydd, clinig colli pwysau, rhaglen ymarfer corff, cymorth rhoi'r gorau i ysmegu. Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall.				

Band	AA2
4	7-8 marc Esboniad gwyh sy'n dangos: • dealltwriaeth hyderus o sut byddai Sanjay yn gallu lleihau ei ffactorau risg ar gyfer datblygu diabetes math 2 • gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddull cadarnhaol o ran iechyd a llesiant
3	5-6 marc Esboniad da iawn sy'n dangos: • dealltwriaeth gadarn o sut byddai Sanjay yn gallu lleihau ei ffactorau risg ar gyfer datblygu diabetes math 2 • gwybodaeth a dealltwriaeth dda o ddull cadarnhaol o ran iechyd a llesiant
2	3-4 marc Esboniad da sy'n dangos: • dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut byddai Sanjay yn gallu lleihau ei ffactorau risg ar gyfer datblygu diabetes math 2 • gwybodaeth a dealltwriaeth glir ar y cyfan o ddull cadarnhaol o ran iechyd a llesiant
1	1-2 marc Esboniad sylfaenol sy'n dangos: • rhywfaint o ddealltwriaeth o sut byddai Sanjay yn gallu lleihau ei ffactorau risg ar gyfer datblygu diabetes math 2 • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ddull cadarnhaol o ran iechyd a llesiant
	0 marc Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb

Cwestiwn		Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm marciau
	(b)	<i>Mae Sanjay wedi bod yn byw yng Nghymru ers 2 flynedd. Mae'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.</i> <i>Disgrifiwch dri dull (methods) sy'n cael eu defnyddio i ddarparu gwybodaeth hybu iechyd i unigolion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.</i>	6 [2,2,2]			6
		Rhowch hyd at 2 farc am bob dull priodol. Rhowch 1 marc am ddisgrifiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ddull priodol. Rhowch 2 farc am ddisgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o ddull priodol. Gall atebion gyfeirio at y canlynol: • caiff taflenni eu darparu mewn gwahanol ieithoedd, caiff y wybodaeth ei deall yn glir e.e. Cymraeg iaith gyntaf, gallant fynd â nhw adref • posterï - cynrychiolaeth weledol, does dim angen iaith, ar gael i'r cyhoedd mewn mannau cyhoeddus • deunyddiau sy'n defnyddio lluniau, ffotograffau a diagramau, llai o eiriau i'w darllen, yn haws ac yn gyflymach deall terminoleg feddygol benodol • y cyfryngau cymdeithasol, yn cael eu defnyddio gan fwy o bobl iau, rhannu gwybodaeth o fewn teuluoedd er mwyn cefnogi ymyriadau meddygol • mentoriaid a chanolfannau iechyd cymunedol / gwasanaethau cyfeillio cymunedol, cymorth grwpiau cymunedol, yn annog unigolion i ofyn am gyngor meddygol – sicrhau bod llysgenhadon iechyd/ eiriolwyr / cyfieithwyr/ gweithwyr iechyd proffesiynol amgen ar gael (dros y ffôn neu wyneb yn wyneb), gan roi cyfle i ofyn cwestiynau, egluro'r camau meddygol sydd eu hangen • digwyddiadau hyrwyddo cymunedol arbenigol, cyrraedd mwy o bobl yn y gymuned, diddanu/cymell unigolion i ofyn am gyngor meddygol • hysbysebion hyrwyddo yn cynnwys cynrychiolwyr enwog o wahanol grwpiau cymunedol yn cynhyrchu deunydd iechyd ar y teledu, e.e. brechiadau COVID-19 / darparu gwybodaeth gywir, annog ymddygiadau cadarnhaol Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall.				

Cwestiwn		AA1	AA2	AA3	Cyfanswm marciau
3.	<i>Disgrifiwch nodweddion y model biofeddygol (biomedical model) ar gyfer iechyd, anabledd a llesiant.</i>	8			8
	Mae'r model biofeddygol yn tybio bod salwch neu afiechyd yn bodoli. Mae'n pwysleisio'r dull meddygol gan ddefnyddio diagnosis clinigol ac ymyriadau meddygol wrth drin clefyd neu ei symptomau. Gall atebion gyfeirio at y canlynol: Canolbwyntio ar iechyd corfforol yn hytrach na llesiant cyffredinol. Mae'r unigolyn yn oddefol gan mai'r arbenigwyr iechyd sy'n gwneud y diagnosis ac yn trin/ymyrryd • Mae enghreifftiau o'r model hwn yn cynnwys sganiau, profion gwaed, pelydrau-X, llawdriniaeth a chyfnod yn yr ysbyty. Ffocws ar sut mae diagnosau a thriniaethau meddygol yn lleihau cyfraddau morbidrwydd a marwolaethau cynamserol • dibyniaeth ar wybodaeth feddygol ac ymarferwyr meddygol, nid pobl leyg • targedu'r boblogaeth gyfan ar gyfer mater iechyd penodol e.e. pwysedd gwaed uchel mewn perthynas â chlefyd y galon neu grwpiau risg uchel fel B.A.M.E. ar gyfer COVID-19 • cynyddu ymyriadau meddygol e.e. imiwneiddio, sgrinio, profion gwaed/wrin • mae atal a thrin clefydau yn gynnar yn rhatach yn y tymor hwy na thrin nifer mawr o achosion o'r clefyd • yn canolbwyntio ar ffactorau biolegol yn unig felly yn anwybyddu dylanwadau seicolegol, amgylcheddol a chymdeithasol sy'n effeithio ar lesiant cyffredinol • Yn awgrymu bod problemau iechyd yn ymwneud â'r unigolyn, yn anwybyddu'r ffactorau achosiaeth cymdeithasol • mae modelau eraill fel y modelau cymdeithasol a bioseicogymdeithasol yn mynd i'r afael â llesiant cyffredinol yn fwy effeithiol Drwy fynd i'r afael ag iechyd a llesiant corfforol, mae hefyd yn gwella llesiant meddyliol, llesiant economaidd a llesiant emosiynol. Caiff diagnosis clinigol ac ymyriadau meddygol eu hystyried fel yr ateb i iechyd gwael felly hyrwyddo llesiant er mwyn gwella ansawdd bywyd cyffredinol unigolyn. Mae'r ffocws ar 'drwsio' yr unigolyn yn hytrach nag addasu a chefnogi llesiant cyfannol unigolyn. Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall.				

Band	AA1
4	7-8 marc Disgrifiad ardderchog sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r model biofeddygol • dealltwriaeth hyderus o nodweddion y model biofeddygol ar gyfer iechyd, anabledd a llesiant
3	5-6 marc Disgrifiad da sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r model biofeddygol • dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o nodweddion y model biofeddygol ar gyfer iechyd, anabledd a llesiant
2	3-4 marc Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos: • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r model biofeddygol • rhywfaint o ddealltwriaeth o nodweddion y model biofeddygol ar gyfer iechyd, anabledd a llesiant
1	1-2 marc Ystyriaeth sylfaenol sy'n dangos: • fawr ddim gwybodaeth na dealltwriaeth o'r model biofeddygol • fawr ddim dealltwriaeth o'r model biofeddygol ar gyfer iechyd, anabledd a llesiant
	0 marc Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm marciau
4.	<i>Esboniwrch sut byddai'r fframwaith 'Mwy na geiriau' yn gallu bod o fantais i blant ac oedolion sy'n siarad Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant.</i>		8		8
	Gall atebion gyfeirio at y canlynol: • gwneud ymdrech benodol i ofyn beth y dewis iaith yr unigolyn a chynnig gwasanaethau yn y Gymraeg er mwyn i siaradwyr Cymraeg allu cael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau yn eu mamiaith – mae hawl ganddynt i hynny (Deddf Cydraddoldeb 2010) er mwyn gallu cymryd rhan weithredol yn eu gofal • creu diwylliant sy'n sicrhau bod y cynnig gweithredol o gyfathrebu yn y Gymraeg yn rhan greiddiol o wasanaethau iechyd, cymdeithasol a gofal plant, fel nad yw'r iaith a ddefnyddir a gweithgareddau cyfathrebu yn creu rhwystrau ac yn atal pobl rhag cael mynediad at wasanaethau • darparwr y gwasanaeth sy'n gyfrifol am gyflwyno cynnig rhagweithiol i gyfathrebu yn Gymraeg, ac nid defnyddiwr y gwasanaeth, fel y gall mwy o bobl agored i niwed gael y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen ar unwaith e.e. unigolion hŷn, pobl â dementia neu bobl sydd wedi cael strôc, neu blant ifanc sydd o bosibl yn siarad Cymraeg yn unig • mae gofal ac iaith yn cyd-fynd â'i gilydd, felly mae cyfathrebu effeithiol gan ddefnyddio mamiaith unigolyn yn un o egwyddorion iechyd a gofal cymdeithasol allweddol y sylfaen gwerthoedd gofal • y fframwaith strategol dilynol yw hwn, gan adeiladu ar y strategaeth wreiddiol i gryfhau gwasanaethau Cymraeg yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall.				

Band	AA2
4	7-8 marc Esboniad ardderchog sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r fenter 'Mwy na geiriau' • dealltwriaeth hyderus o sut mae'r fenter hon o fantais i blant ac oedolion sy'n siarad Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant
3	5-6 marc Esboniad da iawn sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r fenter 'Mwy na geiriau' • dealltwriaeth gadarn o sut mae'r fenter hon o fantais i blant ac oedolion sy'n siarad Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant
2	3-4 marc Esboniad da sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r fenter 'Mwy na geiriau' • dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut mae'r fenter hon o fantais i blant ac oedolion sy'n siarad Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant
1	1-2 marc Esboniad sylfaenol sy'n dangos: • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r fenter 'Mwy na geiriau' • rhywfaint o ddealltwriaeth o sut mae'r fenter hon o fantais i blant ac oedolion sy'n siarad Cymraeg
	0 marc Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm marciau
5.	<i>Dadansoddwch sut byddai Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn gallu cyfrannu at welliannau (improvements) i iechyd, llesiant a gwydnwch plant yng Nghymru.</i> Gall atebion gyfeirio at y strategaeth yn gwneud y canlynol: • rhoi cyfarwyddyd clir i Lywodraeth Cymru weithio tuag at leihau tlodi plant yng Nghymru (cyhoeddwyd yn 2011) • rhoi crynodeb clir o'r hyn y dylai Llywodraeth Cymru ei gyflawni wrth helpu i leihau tlodi; ffocws arbennig ar y canlyniadau addysg a'r canlyniadau economaidd i deuluoedd incwm isel (yn ystod 2011-14) • cynnig dull â ffocws strategol ar leihau tlodi plant yng Nghymru ac yn tynnu sylw at yr angen i weithredu ar frys; gosod targedau ac amserlenni • nodi'r angen i leihau nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd di-waith, cynyddu sgiliau a lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd, addysg ac economaidd • mesur cynnydd gan ddefnyddio canlyniadau meintiol fel: % y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol, % y plant mewn aelwydydd di-waith, % y plant 7 oed sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim, % y babanod a gaiff eu geni â phwysau geni isel, % y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) • anelu at sicrhau nad oedd unrhyw blentyn yn byw mewn tlodi erbyn 2020, ond ni chyflawnwyd hyn. Cymru sydd â'r lefel uchaf o dlodi plant o blith holl wledydd y DU. (Yn 2020, roedd 3 o bob 10 plentyn yn byw mewn tlodi yng Nghymru hyd yn oed cyn effeithiau'r coronafeirws) • mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar addysg ac iechyd i leihau anghydraddoldebau mewn ardaloedd daearyddol lle ceir amddifadedd e.e. grantiau hanfodion ysgolion, prydau ysgol am ddim, EMA, presgripsiynau am ddim, banciau bwyd, cynnig gofal plant ac ati. • gall gynnwys cyfeiriad at ddeddfwriaeth ategol arall Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall.			6	6

Band	AA3
3	5-6 marc Dadansoddi da iawn sy'n dangos: • barnau rhesymegol o ran sut mae Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn cyfrannu at welliannau i iechyd, llesiant a gwydnwch plant yng Nghymru • ymdrech drylwyr i ymdrin â Strategaeth Tlodi Plant Cymru
2	3-4 marc Dadansoddiad da sy'n dangos: • barnau dilys ar y cyfan o ran sut mae Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn cyfrannu at welliannau i iechyd, llesiant a gwydnwch plant yng Nghymru • ymdrech syml i ymdrin â Strategaeth Tlodi Plant Cymru
1	1-2 farc Dadansoddiad cyfyngedig sy'n dangos: • fawr ddim barn o ran sut mae Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn cyfrannu at welliannau i iechyd, llesiant a gwydnwch plant yng Nghymru • fawr ddim ymdrech i ymdrin â Strategaeth Tlodi Plant Cymru
	0 marc Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm marciau
6.	<i>Trafodwch beth yw manteision Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru.</i> Gall atebion gyfeirio at Gynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru: • hyrwyddo'r cysylltiad rhwng iechedd, ymddygiad a chyflawniad a dangos bod plant a phobl ifanc iach a hapus yn gwneud yn well wrth ddysgu, ac mewn bywyd • canolbwyntio ar ymdrechion gweithredol i hyrwyddo ac amddiffyn llesiant corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc yng Nghymru • lleihau anghydraddoldebau iechedd a llesiant i blant/pobl ifanc a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol • annog y broses o ddatblygu cynlluniau ysgolion iach lleol o fewn cyfle fframwaith cenedlaethol, fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfleoedd cyfartal a mynediad cyfartal at adnoddau • drwy gefnogi dull ysgol gyfan / coleg cyfan i bob un sy'n dysgu, gweithio ac chwarae yn yr ysgol, ceir ffocws sefydliadol sy'n seiliedig ar addysg iechedd Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru • rhoi cyfrifoldeb ar bob ysgol/coleg i ganolbwyntio ar yr ethos iechedd a llesiant cadarnhaol mewn perthynas â pholisïau ac arferion • ymdrin ag amrywiaeth eang o feysydd er mwyn grymuso plant a phobl ifanc gan ganolbwyntio'n benodol ar yr agweddau canlynol ar iechedd a llesiant, sef yr agweddau mwyaf perthnasol i blant/pobl ifanc: ○ bwyd a ffitrwydd / maeth a gweithgaredd corfforol ○ iechedd a llesiant meddyliol ac emosiynol ○ datblygiad personol a pherthnasoedd (gan gynnwys addysg rhyw a pherthnasoedd) ○ defnyddio a chamddefnyddio sylweddau gan gynnwys alcohol, ysmegu a defnyddio a chamddefnyddio cyffuriau ○ pryderon amgylcheddol, yn enwedig o ran cynaliadwyedd ecolegol ○ diogelwch, gan gynnwys amddiffyn plant, diogelwch yr haul, diogelwch ar y rhyngwyd a chymorth cyntaf ○ hylendid ar draws lleoliadau addysgol ac anaddysgol • datblygu rhaglenni iechedd a llesiant unigol i ysgolion/colegau e.e. bwyta'n iach, e.e. prydau ysgol sy'n darparu amrywiaeth o fwydydd gwahanol i blant a phobl ifanc roi cynnig arnynt, canllawiau pecynnau cinio iach • annog adborth, fel bod plant a phobl ifanc yn mynegi eu barn ac yn cael eu grymuso i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechedd a'u llesiant Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall.			8	8

Band	AA3
4	7-8 marc Trafodaeth ardderchog sy'n dangos: • barnau craff a gwybodus am amrywiaeth o fanteision Cynllun Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru (WNHSS). • ymdrech hyderus a manwl i ymdrin â Chynllun Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru (WNHSS)
3	5-6 marc Trafodaeth dda sy'n dangos: • barnau rhesymegol am amrywiaeth o fanteision Cynllun Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru (WNHSS) • ymdrech drylwyr i ymdrin â Chynllun Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru (WNHSS)
2	3-4 marc Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos: • barnau dilys ar y cyfan am amrywiaeth o fanteision Cynllun Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru (WNHSS) • ymdrech syml i ymdrin â Chynllun Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru (WNHSS)
1	1-2 marc Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: • rhai barnau dilys am amrywiaeth o fanteision Cynllun Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru (WNHSS) • fawr ddim ymdrech i ymdrin â Chynllun Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru (WNHSS)
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb.

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm marciau
7.	<i>Mae astudiaethau diweddar wedi rhagfynegi (predicted) y bydd newid yn y boblogaeth erbyn 2025 ac y bydd mwy na 20% o boblogaeth Cymru dros 65 oed.</i> <i>Ystyriwch sut byddai poblogaeth sy'n heneiddio (ageing population) yn gallu creu heriau i'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a llesiant yng Nghymru.</i>			10	10
	Gall atebion gyfeirio at y canlynol: - cynnydd yn y boblogaeth, gan fod y ffaith bod y boblogaeth yn byw'n hirach yn rhoi mwy o bwysau ar adnoddau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant - efallai y bydd unigolion hŷn yn ei chael hi'n fwy anodd defnyddio gwasanaethau iechyd a llesiant sy'n golygu y gallai fod angen mwy o wasanaethau symudedd/trafnidiaeth, a chymorth cyfathrebu/ eiriolwyr - efallai na fydd digon o gyllid i ddarparu mwy o wasanaethau iechyd a gofal i ddiwallu anghenion pobl hŷn felly efallai y bydd mwy o bwysau ar wasanaethau presennol - blaenoriaethau o ran ariannu; gallai gael effaith negyddol ar y gwasanaethau a ddarperir i grwpiau oedran eraill - yn dibynnu ar flaenoriaethu, efallai na fydd pobl hŷn yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt - gall cynnydd yn y boblogaeth hŷn effeithio ar y gymhareb dibyniaeth, felly efallai y bydd gostyngiad yn y boblogaeth sy'n gweithio sy'n darparu cyllid i gefnogi unigolion hŷn ac iau nad ydynt yn gweithio - cost ariannol i gymdeithas – gostyngiad mewn incwm gwario yn sgil trethi uwch i'r boblogaeth sy'n gweithio (sydd eu hangen er mwyn ariannu galw cynyddol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer poblogaeth fwy) yn effeithio ar iechyd a llesiant y boblogaeth sy'n gweithio - mae cysylltiad rhwng poblogaeth sy'n heneiddio a gostyngiad mewn cynhyrchiant economaidd, felly gallai arwain at ostyngiad yn y cyfoeth a'r cyllid sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau iechyd a llesiant - mwy o straen ar y GIG; angen mwy o welyau ysbyty ar gyfer mwy o unigolion hŷn, rhestr aros hirach, unigolion hŷn yn fwy tebygol o gwympo – mân anafiadau yn ychwanegu at y pwysau ar wasanaethau - adeiladu mwy o dai â chymorth y bydd eu hangen os bydd mwy o unigolion hŷn - wedi ysgogi adolygiad gan y Llywodraeth o'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer unigolion hŷn er mwyn darparu gwasanaeth mwy cydgysylltiedig sy'n cysylltu'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol - gall cynnydd yn y gwasanaethau a ddarperir arwain at greu mwy o gyfleoedd hyfforddiant a swyddi yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y boblogaeth sy'n gweithio				

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm marciau
	- gall fod gan unigolion hŷn rwydweithiau cymdeithasol llai o faint, felly ni fydd aelodau teulu a ffrindiau ar gael i ddarparu gofal personol yn y cartref. Rhaid i'r gofal cartref hwn gael ei ddarparu gan asiantaethau, sy'n aml yn brin o staff ac y mae ganddynt drosiant uchel o weithwyr gofal. - mw y ddibyniaeth ar ofalwyr di-dâl e.e. teulu, ffrindiau, cymdogion. Gall straen gofalwr fod yn broblem. - fodd bynnag, gall y ffaith bod mw y unigolion hŷn ar gael i weithio a chefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gwirfoddol fod o fudd, megis gwirfoddolwyr mewn ysbytai Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall.				

Band	AA3
	9-10 marc
4	Ymateb ardderchog sy'n dangos: - dehongliad craff a gwybodys o sut byddai poblogaeth sy'n heneiddio yn gallu creu heriau i'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a llesiant yng Nghymru - ystyriaeth hyderus a manwl o amrywiaeth o effeithiau'r heriau hyn ar y ddarpariaeth gwasanaethau
3	6-8 marc Ymateb da sy'n dangos: - dehongliad rhesymegol o sut byddai poblogaeth sy'n heneiddio yn gallu creu heriau i'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a llesiant yng Nghymru - ystyriaeth drylwyr o effeithiau'r heriau hyn ar y ddarpariaeth gwasanaethau
2	3-5 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: - dehongliad dilys ar y cyfan o sut byddai poblogaeth sy'n heneiddio yn gallu creu heriau i'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a llesiant yng Nghymru - ystyriaeth syml o rai o effeithiau'r heriau hyn ar y ddarpariaeth gwasanaethau
1	1-2 marc Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: - rhywfaint o ddehongliad o sut byddai poblogaeth sy'n heneiddio yn gallu creu heriau i'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a llesiant yng Nghymru - fawr ddim ystyriaeth o un o effeithiau'r heriau hyn o leiaf ar y ddarpariaeth gwasanaethau
	0 marc Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb

Cwestiwn		Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm marciau
8.	(a)	<i>Mae Rosie yn 5 oed ac mae hi'n cael ei brechiad fflw bob blwyddyn ar ffurf chwistrelliad trwynol (nasal spray). Mae ei thad-cu, Dafydd, hefyd yn cael brechiad fflw bob blwyddyn.</i> <i>Amlinellwch dair ffordd byddai'r ymgyrch 'Curwch Fflw (Beat Flu)' yn gallu cyfrannu at welliannau i iechyd a llesiant pob unigolyn yng Nghymru.</i>	6 [2,2,2]			6
		Rhowch hyd at 2 farc am bob ffordd y mae'r ymgyrch 'Curwch Fflw' yn cyfrannu at welliannau i iechyd a llesiant unigolion yng Nghymru. Rhowch 1 marc am amlinelliad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ffyrdd priodol. Rhowch 2 farc am amlinelliad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o ffyrdd priodol. Gall atebion gyfeirio at y canlynol: • rhybuddion a gyhoeddwyd yn yr hydref (gan ddechrau ym mis Hydref) sef yr amser gorau i roi'r brechlyn cyn i gyfraddau heintiau uchel y gaeaf ddechrau • mae'r rhaglen yn rhedeg tan fis Mawrth felly gall pobl dderbyn brechiad yn ddiweddarach • brechu yw'r amddiffyniad gorau rhag y fflw; mae imiwnedd torfol i fflw yn cynyddu wrth i fwy o bobl gael y brechlyn • ers gaeaf 2020 cafodd y brechlyn ei gynnig i bobl 50+ oed yn rhad ac am ddim gan gynyddu'r boblogaeth ag imiwnedd torfol ymhellach (<i>roedd hyn oherwydd COVID-19 ac mae'n bosibl na fydd yn wir pan gaiff y papur ei sefyll</i>) • mae am ddim i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf fel Rosie/plant â risg iechyd, sy'n annog mwy o unigolion i'w gael • mae brechu blynyddol yn mynd i'r afael â mwtaniadau/straeniau fflw rheolaidd felly cynigir brechlyn fflw gwahanol bob blwyddyn • mae lleihau cyfraddau morbidrwydd a chyfraddau marwolaethau yn lleihau'r straen ar y GIG yn ystod y gaeaf / felly mae mwy o welyau ysbyty yn cael eu rhyddhau • hysbysiadau awtomatig yn cael eu hanfon gan feddygfeydd ar ffurf negeseuon testun/negeseuon ffôn • trefnu apwyntiadau brechu • gwybodaeth ar gael mewn gwahanol fformatau (taflenni, teledu, radio, electronig - gwefannau a Twitter ac ati) er mwyn cyrraedd cynulleidfa fwy • mae'r wybodaeth ar gael yn Gymraeg/yn ddwyieithog felly mae'n gwella ymwybyddiaeth ar draws mwy o gymunedau yng Nghymru Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall.				

Cwestiwn		Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm marciau
	(b)	<i>Mae ymarferydd nyrsio ym meddygfa Dafydd wedi cael hyfforddiant Llywio Gofal (Care Navigation).</i> <i>Disgrifiwch Llywio Gofal fel strategaeth, a dadansoddwch y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael i gefnogi unigolion hŷn (older), fel Dafydd.</i>	6		8	14
		Mae Llywio Gofal yn ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan ddefnyddio dulliau cyfeirio a gwybodaeth i helpu cleifion gofal sylfaenol a'u gofalwyr i symud drwy'r system iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffordd mor hwylus â phosibl er mwyn sicrhau y caiff anghenion heb eu diwallu eu diwallu. Nod y strategaeth hon yw sicrhau y caiff cleifion eu gweld gan y person cywir yn y man cywir ar yr adeg gywir. Gall atebion gyfeirio at y canlynol: • bydd y gweithiwr llywio gofal yn cael hyfforddiant penodol e.e. brysbenneu i benderfynu ar drefn trin nifer mawr o bobl, er enghraifft o fewn adran damweiniau ac achosion brys ysbyty • strategaeth rhagnodi cymdeithasol/gweithwyr cyswllt yw'r strategaeth hon er mwyn cysylltu defnyddwyr gwasanaethau â grwpiau cymunedol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol statudol • dull cyfannol o gefnogi iechyd a llesiant corfforol a meddyliol defnyddwyr gwasanaethau; gellir rhoi cymorth ymarferol ac emosiynol • mae'n darparu opsiynau ar gyfer gofal • mae'n darparu gwybodaeth, fel y gellir gwneud dewisiadau gwybodus; grymuso • darparu mynediad at y gofal sy'n diwallu anghenion unigol Dafydd orau • gellir sicrhau bod Dafydd yn cael ei weld gan y person cywir ar yr adeg gywir • mae'r system hon yn gwneud y defnydd gorau o apwyntiadau ac adnoddau practisau meddygon teulu • gall gweithwyr llywio gofal helpu cleifion i drefnu apwyntiadau i ymweld â'r meddyg ac i gael profion meddygol; gallant hefyd helpu i gyfeirio cleifion y mae angen cymorth ariannol, cyfreithiol a chymdeithasol arnynt • gall gweithwyr llywio gofal drefnu gwasanaethau gofal sylfaenol i gleifion, gan felly leihau'r pwysau ar wasanaethau meddygon teulu • gall amrywiaeth o weithwyr proffesiynol hyfforddedig weithredu fel gweithwyr llywio gofal fel nyrsys, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol, cynrychiolwyr Age UK, therapyddion siarad a therapyddion corfforol				

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm marciau
	Gall gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gynnwys: Meddyg teulu Gofal deintyddol Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd e.e. fferyllydd/cemegydd Gofal iechyd cymunedol – nyrs gymunedol Gofal cymdeithasol Mae'r rhain i gyd yn bwysig o ran iechyd a llesiant cyffredinol unigolion hŷn ac yn chwarae rhan flaenllaw wrth ddarparu gwasanaethau. Gwasanaethau statudol ydynt a dylent fod ar gael i bawb a hynny am ddim gan fwyaf. Maent wedi'u cydgyssylltu a'u nod yw darparu gofal parhaus i unigolion hŷn. Gwasanaethau ataliol ac ymyriadau cynnar – nid yw pob un ar gael ym mhob ardal ac mae'n bosibl y codir tâl ar yr unigolyn. Gwasanaethau cyfeillio: ar gael drwy wasanaethau Age UK lleol; bydd gwirfoddolwr yn dod yn ffrindiau ag unigolyn drwy gysylltu â pherson hŷn (dros y ffôn, yn electronig, wyneb yn wyneb) a siarad ag ef; yn aml yn eich cartref eich hun, gall fynd gyda'r unigolyn i apwyntiadau meddyg / ysbyty neu i weithgareddau cymdeithasol/hamdden sy'n atal unigrwydd, ac ynysigrwydd cymdeithasol. Addasiadau i dai ar gyfer byw'n annibynnol: gellir cael cymorth ariannol gyda'r costau. Mae'r addasiadau yn cynnwys rheiliau cydio, lifftiau bath, cawodydd y gellir eistedd ynddynt er mwyn gwneud y broses yn fwy diogel; gwneud drysau yn lletach ar gyfer cadair olwyn; gostwng arwynebau gwaith yn y gegin er mwyn i ddefnyddiwr y gwasanaeth allu defnyddio offer cegin yn ddiogel: lifftiau grisiau, rampiau tu allan, rheiliau ar grisiau er mwyn helpu unigolion i symud yn annibynnol. Bydd hyn yn galluogi unigolion fel Dafydd i aros yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo'n bosibl. Shopmobility: bydd rhoi benthyg cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd i bobl â symudedd cyfyngedig yn golygu y gall unigolion hŷn barhau i siopa ac ymweld â chyfleusterau hamdden a chyfleusterau masnachol o fewn canol trefi/canolfannau siopa yn annibynnol fel y mynnant. Systemau teleofal: darparu gwasanaeth monitro 24/7 yn y cartref; gall fod yn larwm Lifeline a gaiff ei wisgo gan yr unigolyn neu'n uned sylfaenol ag amrywiaeth o synwryddion wedi'u gosod o amgylch y cartref i'w helpu i fyw'n annibynnol. Mae hyn yn helpu gan fod y system yn hysbysu'r gofawr/teulu/ gwasanaethau meddygol os bydd problem yn y cartref, er enghraifft os bydd yr unigolyn wedi cwmpo, os na fydd unrhyw weithgarwch, os bydd tân, llifogydd neu nwy yn gollwng, er mwyn cadw'r unigolyn yn ddiogel, a bydd yn cael cymorth yn gyflym os bydd ei angen. Mae hefyd yn rhoi tawelwch meddwl i'r teulu. Tai priodol: gan ddibynnu ar anghenion unigol. Mae rhai tai yn cael eu neilltuo ar gyfer oedrannau penodol, megis i bobl				

Cwestiwn	Ateb	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm marciau
	dros 60 oed ac maent yn hollol annibynnol. Gallai tai sy'n cynnig mwy o gymorth gynnwys tai lloches â warden. Bydd gan bob tŷ system larwm argyfwng, ond ni chaiff gofal ei roi. Y cam nesaf - mae gofal cartref yn rhoi annibyniaeth yn y cartref ac yn cynnig gofal personol fel cymorth i ymolchi, gwisgo, mynd i'r toiled a chymryd meddyginiaethau, mae cyfraniad ariannol ar gyfer y gofal hwn sy'n seiliedig ar brawf modd. Gallai'r cam olaf gynnwys gofal preswyl llawn y tu allan i'r cartref a gofal nyrsio i ddiwallu anghenion meddygol. Unwaith eto, bydd yn rhaid i lawer o unigolion dalu am y gofal hwn er y bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn ariannu'r gwasanaeth i rai. Mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus/trafnidiaeth symudedd arbennig er mwyn cynnig trafnidiaeth i unigolion hŷn/anabl fynychu apwyntiadau. Mae tocynnau bws am ddim i bobl dros 60 oed yn helpu â phroblemau ariannol er mwyn i unigolion hŷn allu teithio ac ymweld â ffrindiau a theulu i leihau unigedd. Mynediad i fand eang er mwyn darparu cysylltiadau digidol fforddiadwy a chyflym, yn enwedig ar gyfer lleoliadau gwledig ynysig. Gallai hyn helpu i oresgyn unigrwydd, ac ynysigrwydd cymdeithasol, fodd bynnag, nid yw rhai unigolion hŷn wedi arfer â thechnoleg ac mae'n bosibl na fyddant yn gallu ei defnyddio / y byddant ofn ei defnyddio. Cymorth maeth a hydradu/atgyfeiriad at ddeietegydd neu faethegydd parthed: atgyfeiriadau ataliol ac atgyfeiriadau ymyrryd fel rhaglenni atal diabetes. Gall ymyriadau gynnwys cymorth deiet ac ymarfer corff er mwyn i'r unigolyn allu hunanreoli a hunanfonitro er mwyn cymryd cyfrifoldeb dros reoli ei bwysau a chael digon o faeth drwy ddilyn deiet iach. Ymgysylltu'n gymdeithasol ac yn ddeallusol: Mae canolfannau dydd yn helpu unigolion drwy ddarparu gweithgareddau fel canu, cerddoriaeth, cymorth hel atgofion, cwisiau ac ymarfer corff ysgafn. Gellir cynnig gwasanaethau gofal arbenigol fel prydau wedi'u coginio, cymorth i gael bath, trin gwallt a gofal traed. Mae'r rhain yn ddefnyddiol, ond yn aml bydd lleoedd yn gyfyngedig a dim ond am gyfnod cyfyngedig o amser y byddant ar gael. I gloi, mewn egwyddor mae llawer o wasanaethau ar gael i gefnogi unigolion hŷn, ond mae eu hygyrchedd/argaeledd yn dibynnu ar nifer o ffactorau, megis penderfynyddion gwleidyddol ac economaidd cyllid, llymder / argyfyngau costau byw a blaenoriaethu grwpiau demograffig. Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall.				

Band	AA1	AA3
4	Nid oes unrhyw farciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn. Dyfernir 4 marc fel yn achos Band 3.	7-8 marc Ymateb gwyh sy'n dangos: - barnau craff a gwybodus am y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael i gefnogi unigolion fel Dafydd - ymdrech hyderus a manwl i ymdrin â sut mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi unigolion fel Dafydd Caiiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o amrywiaeth eang o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda iawn ac yn drefnus iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir.
3	5-6 marc Disgrifiad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o nodweddion allweddol y strategaeth Llywio Gofal.	5-6 marc Ymateb da sy'n dangos: - barnau rhesymegol am y gwasanaethau ataliol a'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael i gefnogi unigolion fel Dafydd - ymdrech drylwyr i ymdrin â sut mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi unigolion fel Dafydd Caiiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan.
2	3-4 marc Disgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o rai o nodweddion y strategaeth Llywio Gofal.	3-4 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: - barnau dilys ar y cyfan am y gwasanaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol sydd ar gael i gefnogi unigolion fel Dafydd - ymdrech syml i ymdrin â sut mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi unigolion fel Dafydd Caiiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n ddigonol ac mae'n dangos defnydd priodol o derminoleg. Ar y cyfan mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda gyda gramadeg, atalnodi a sillafu eithaf cywir.
1	1-2 marc Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol o nodweddion y strategaeth Llywio Gofal.	1-2 marc Ymateb cyfyngedig sy'n dangos: - rhai barnau am y gwasanaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol sydd ar gael i gefnogi unigolion - fawr ddim o ymdrin â sut mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi unigolion Mae ymateb yr ymgeisydd yn dangos defnydd sylfaenol o derminoleg. Mae peth tystiolaeth o strwythur i'r gwaith ysgrifennu ond mae gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu.
	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb.	0 marc Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb.

Cwestiwn			Cynnwys y fanyleb (prif ffocws)				Dyranid marciau			
			Adran			Rhan	Cyfanswm marciau	Marciau AA1	Marciau AA2	Marciau AA3
			2.1.1	2.1.2	2.1.3					
1.					6	(b) (c)	6	6	0	0
2.	(a)		8			(a)	8	0	8	0
	(b)				6	(ch)	6	6	0	0
3.			8			(b)	8	8	0	0
4.				8		(c)	8	0	8	0
5.					6	(d)	6	0	0	6
6.					8	(d) (dd)	8	0	0	8
7.				10		(a)	10	0	0	10
8.	(a)				6	(d)	6	6	0	0
	(b)				6 8	(d) (a)	14	6 0	0 0	0 8

Cyfanswm marciau	16	18	46		80	32	16	32
------------------	----	----	----	--	----	----	----	----